*Statws This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2013 Rhif 2918 (Cy. 286)

# Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

## Gorchymyn Byrddau Iechyd Lleol (Sefydlu a Diddymu) (Cymru) (Diwygio) 2013

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *13 Tachwedd 2013* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -* | *21 Tachwedd 2013* |
| *Yn dod i rym - -* | *12 Rhagfyr 2013* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adrannau 11, 203(9) a (10) a 204 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006(**1**) a pharagraffau 11 a 12 o Atodlen 2 iddi, yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:

**Enwi a chychwyn**

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Byrddau Iechyd Lleol (Sefydlu a Diddymu) (Cymru) (Diwygio) 2013 a daw i rym ar 12 Rhagfyr 2013.

**Diwygio Gorchymyn Byrddau Iechyd Lleol (Sefydlu a Diddymu) (Cymru) 2009**

**2.** Mae Atodlen 1 i Orchymyn Byrddau Iechyd Lleol (Sefydlu a Diddymu) (Cymru) 2009(**2**) (enwau byrddau iechyd lleol a phrif ardaloedd llywodraeth leol y sefydlir hwy ar eu cyfer) wedi ei diwygio fel a ganlyn:

(a) yn lle "Bwrdd Iechyd Lleol Aneurin Bevan" ("*Aneurin Bevan Local Health Board*") rhodder "Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Aneurin Bevan" ("*Aneurin Bevan University Local Health Board*");

(b) yn lle "Bwrdd Iechyd Lleol Cwm Taf" ("*Cwm Taf Local Health Board*") rhodder "Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Cwm Taf" ("*Cwm Taf University Local Health Board*"); ac

(c) yn lle "Bwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda" ("*Hywel Dda Local Health Board*") rhodder "Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Hywel Dda" ("*Hywel Dda University Local Health Board*").

(**1**) 2006. p.42 .
(**2**) O.S. 2009/778 (Cy.66).

***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

*Mark Drakeford*
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru

13 Tachwedd 2013

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn Diwygio hwn yn diwygio Gorchymyn Byrddau Iechyd Lleol (Sefydlu a Diddymu) (Cymru) 2009 (O.S. 2009/778 (Cy.66)) er mwyn newid enwau Bwrdd Iechyd Lleol Aneurin Bevan, Bwrdd Iechyd Lleol Cwm Taf a Bwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda i Fyrddau Iechyd Lleol Prifysgol.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Gorchymyn hwn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Gorchymyn hwn.